## Taith Cymru Ifanc i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Chwefror 2023

Plant yng Nghymru yw'r corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd yng Nghymru. Menter gan Plant yng Nghymru yw Cymru Ifanc sy'n cryfhau a chefnogi lleisiau plant a phobl ifanc ledled Cymru, fel eu bod yn cael eu clywed ac yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Mae'r fenter wedi'i sylfaenu ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc.

## CCUHP a chylch adrodd y pwyllgor



*Adeilad y Cenhedloedd Unedig yn Genefa, y Swistir*

Cytundeb rhyngwladol yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) sy'n nodi hawliau pob plentyn, wedi'i lofnodi gan bron i bob aelod-wladwriaeth yn y Cenhedloedd Unedig. Mae 54 o erthyglau yn CCUHP ac maent yn ymdrin ag ystod o hawliau, megis Erthygl 8 – yr hawl i hunaniaeth, Erthygl 19 – yr hawl i gael eich diogelu rhag trais a chamdriniaeth, ac Erthygl 12 – yr hawl i fynegi barn a chael eich cymryd o ddifrif (UNICEF, dim dyddiad). Mae Erthygl 12 yn benodol yn ganolog i'n holl waith yn Cymru Ifanc, ac rydym yn gweithio i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cymryd o ddifrif drwy gysylltu pobl ifanc â Llywodraeth Cymru mewn gwahanol ffyrdd.



*Rhag-sesiwn DU a Jersey gyda Phwyllgor Hawliau'r Plentyn y Cenhedloedd Unedig*

Sefydlwyd pwyllgor gan y Cenhedloedd Unedig er mwyn asesu a monitro'r cynnydd y mae gwahanol wladwriaethau (megis y DU a Jersey) yn ei wneud o ran hawliau plant o dan y rhwymedigaethau a lofnodwyd ganddynt yn CCUHP (Child Rights Connect, 2020). Fel rhan o'r broses hon, gall amddiffynwyr hawliau plant fynd at y pwyllgor a'i hysbysu am wahanol faterion yn ymwneud â hawliau plant mewn "rhag-sesiwn". Bydd yr amddiffynwyr hawliau plant hefyd yn gwneud argymhellion am yr hyn y dylai'r pwyllgor ei drafod gyda'r llywodraeth genedlaethol dan sylw. Mae'r amddiffynwyr hawliau plant yn cynnwys pobl o ystod o sefydliadau sy'n ymwneud â hawliau plant, megis cynrychiolwyr o elusennau hawliau plant a chomisiynwyr plant, yn ogystal â'r bobl ifanc eu hunain. Bydd y pwyllgor yn gofyn cwestiynau i'r cynrychiolwyr, gan gyfeirio at adroddiadau y maent wedi'u gwneud ac wedi'u cyflwyno i'r pwyllgor cyn y cyfarfod yn ymwneud a'u barn ar gyflwr hawliau plant yn eu gwlad. Gellir cynnal cyfarfod plant hefyd, lle bydd plant yn

cyfarfod â'r pwyllgor ar eu pen eu hunain i drafod eu blaenoriaethau allweddol heb unrhyw oedolion eraill yn bresennol.

### Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc



*Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc*

Daethom ni yn Cymru Ifanc â grŵp o chwech o bobl ifanc sy'n frwd dros hawliau plant ynghyd i fynd i'r rhag-sesiwn hon yng Ngenefa. Gyda'i gilydd, roeddent yn cynrychioli holl blant a phobl ifanc Cymru, a Plant yng Nghymru a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru fel sefydliadau. Cawsom ein hariannu gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i fynd â'r bobl ifanc ar y daith hon.

Cyn iddynt fynd i Genefa, bu'r criw yn cydweithio am fisoedd lawer i gyd-lunio adroddiad ar gyflwr hawliau plant yng Nghymru gyda staff Cymru Ifanc.

Casglodd yr adroddiad wybodaeth ynghyd o 41 o ymgynghoriadau pobl ifanc, yn ogystal â grwpiau cynghori pobl ifanc Cymru Ifanc a sefydliadau allanol sy'n ymwneud â hawliau plant. Yn ogystal â hyn, cyd-luniodd y bobl ifanc arolwg ar-lein gyda staff Cymru Ifanc er mwyn gofyn i bobl ifanc yng Nghymru beth oedd eu barn am gyflwr hawliau plant. Cyfeiriwyd at feysydd blaenoriaeth allweddol yn yr arolwg, yr oedd y bobl ifanc wedi'u dewis yn seiliedig ar adolygiadau o lenyddiaeth a thrafodaethau gyda gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Adolygodd yr adroddiad ganlyniadau'r arolwg a dangos beth yw barn pobl ifanc Cymru am y meysydd blaenoriaeth allweddol hyn. Os hoffech ddarllen yr adroddiad hwn, gallwch ddod o hyd iddo [yma].

Ar ôl creu'r adroddiad, anfonodd Cymru Ifanc ef at Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. O ganlyniad i hyn, gwahoddwyd y bobl ifanc i ymuno â'r rhag-sesiwn i gwrdd â'r pwyllgor, ochr yn ochr ag amddiffynwyr hawliau plant eraill. Yno, byddent yn ymhelaethu ar eu hadroddiad a rhoi eu barn ar hawliau plant yng Nghymru.

### Ymweld â'r Cenhedloedd Unedig a siarad â'r pwyllgor



*Gwirfoddolwyr Cymru Ifanc gyda Rocío Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru*

Roedd dwy ran i'r rhag-sesiwn yr oedd gwirfoddolwyr Cymru Ifanc yn rhan ohoni.

Yn gyntaf, cymerodd y bobl ifanc ran mewn sesiwn gyfrinachol, lle'r aethant ati i roi cyflwyniad ar y pwyntiau allweddol yn eu hadroddiad a gwneud argymhellion penodol. Ymunodd plant a phobl ifanc o bob rhan o'r Deyrnas Unedig a Jersey â nhw, a fu'n trafod ystod o feysydd blaenoriaeth. Y meysydd blaenoriaeth a drafodwyd gan wirfoddolwyr Cymru Ifanc oedd iechyd meddwl a llesiant, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, trosedd a thrafnidiaeth. Roedd costau byw yn thema drosfwaol, a soniwyd sut mae'r holl faterion hyn yn gysylltiedig ac yn gwaethygu o ganlyniad i'r argyfwng hwn. Soniodd y gwirfoddolwyr am y ffordd mae'r materion hyn yn effeithio arnynt, gan

gynnig argymhellion ar sut y gellir gwella'r sefyllfa. Cawsant gyfle hefyd i ateb cwestiynau gan y pwyllgor. Un argymhelliad allweddol a wnaed oedd gwreiddio CCUHP yn llawn yng nghyfraith Cymru.




*Amddiffynwyr hawliau plant yn dilyn rhag-sesiwn y DU a Jersey*

Yn dilyn hyn, cafodd y bobl ifanc gyfle i gymryd rhan yng nghyfarfod mwy ffurfiol y rhag-sesiwn, ochr yn ochr ag amddiffynwyr hawliau plant eraill. Soniodd rhai o'r bobl ifanc o Cymru Ifanc am sut mae gwahanol faterion yn ymwneud â hawliau plant yn effeithio arnyn nhw. Ac unwaith eto, rhoddwyd awgrymiadau i'r pwyllgor ar sut y gellir gwella hyn.

Yn seiliedig ar yr holl wybodaeth hon, bydd y pwyllgor nawr yn cyfarfod â llywodraethau'r DU i wneud argymhellion ynghylch sut y gallant sicrhau bod pob plentyn yn y wladwriaeth hon yn cael mynediad at eu hawliau o dan CCUHP.

## Gweddill y daith i Genefa



*Chwith uchaf: Jet D'Eau, ffynnon fawr ar Lyn Genefa*
*Dde uchaf: Cloc Blodau*
*Chwith gwaelod: Raclette, math o gaws*
*Dde gwaelod: Stryd yn hen dref Genefa*

Cyn mynychu'r cyfarfodydd yn adeilad y Cenhedloedd Unedig, aeth y bobl ifanc i amgueddfa'r Groes Goch, sy'n rhoi sylw i waith y Groes Goch dros y degawdau a'r anawsterau a gaiff rhai pobl a chymunedau ar draws y byd i gael mynediad i'w hawliau dynol.

Rhaid oedd rhoi'r cyfle i'r bobl ifanc fwynhau Genefa hefyd, wrth gwrs! Felly, wedi iddynt fod yn adeilad y Cenhedloedd Unedig, treuliodd y criw y diwrnod yn mwynhau golygfeydd y ddinas. Aethant i adeilad y Cenhedloedd Unedig ac yna treulio amser yn yr hen dref yn ymweld â siopau a chael gweld yr adeiladau hŷn. Cawsant fynd i weld y cloc blodau a'r Jet D'Eau ger y llyn a mynd ar daith cwch dros y dŵr. Cawsant flasu ychydig o gaws raclette Swisaidd hefyd, ac, wrth gwrs, roedd rhaid cael blasu'r siocled enwog! Hoffai staff Cymru Ifanc ddiolch i'r gwirfoddolwyr a ddaeth ar y daith am eu gwaith caled a'u hymroddiad gydol y broses.

***Os hoffech chi ymuno â Cymru Ifanc fel gwirfoddolwr, cymerwch gipolwg ar y dudalen recriwtio gwirfoddolwyr ar ein gwefan – https://www.childreninwales.org.uk/jobs/ young-volunteers-recruiting-now/. Yma cewch ragor o wybodaeth a chael gwybod sut i gofrestru.***

**Commented [MH1]:** We couldn't link to a Welsh version of this page as there doesn't appear to be a Welsh version on the website.

**Cyfeiriadau**

Child Rights Connect (2020) "UN Committee on the Rights of the Child" (ar-lein). Ar gael yn https://childrightsconnect.org/un-committee-on-the-rights-of-the-child/ (Cyrchwyd 3 Ebrill 2023)

UNICEF (dim dyddiad) “What is the Convention on Child Rights?” (ar-lein). Ar gael yn https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/ (Cyrchwyd 3 Ebrill 2023)